**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol**

**Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Mercher, 14 Mai 2025**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan - 4pm**

**Yn Bresennol:** **Yr Aelodau**:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy Gadeirydd
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Peter Griffiths (PG)
David Gravelle (DG)
Tara Jane-Sutcliffe (TS)
Julie James (JJ)
Julie Sweet (JS)
Laura Grant (LG)
Sandra Downey (SD)
Phil Snaith (PS)

**Ysgrifennydd** - Caroline Ferguson (CF) **–** Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**

Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen (AVO) - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad
Christopher Nelson (CN) - Rheolwr Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Wyn Owen
Ryland Jones

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion;**

Phillip Morgan - Arweinydd Tîm CNC - Rheoli Tir y De-orllewin

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae BHS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gymdeithas Geffylau Prydain

| **EITEM** | **CAMAU GWEITHREDU** |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd CF y fforwm newydd a darllenodd yr ymddiheuriadau.<br><br>Cyflwynodd yr holl aelodau, arsylwyr ac ymgynghorwyr eu hunain a'u diddordebau/rôl mynediad<br><br>Diolchodd AVO aelodau'r fforwm yn ffurfiol am eu hamser a'u hymrwymiad gwerthfawr.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau i AVO ac ET am fanylion eu portffolios Aelodau Cabinet | AVO/ET/CF |
| **Eitem 2 – CYFLWYNIADAU RHEOLI MYNEDIAD – IS-ADRAN PRIFFYRDD**<br><br>Soniodd CF am y modd yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cefndir bras i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a sut mae'n cael ei reoli, ei flaenoriaethu a'i gynnal a'r heriau. Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>Soniodd CN am y modd yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r Priffyrdd. Cyflwyniad i'r rhwydwaith, sut mae'n cael ei gategoreiddio a'i flaenoriaethu a'r heriau. Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>Rhoddodd AM gyflwyniad i reoli prosiectau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, gan roi manylion am ddatblygu'r prosiectau, cyllid a'r llwyddiannau hyd yn hyn. Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>Esboniodd CF fod cyfres arall o gyflwyniadau Mynediad wedi'i threfnu ar gyfer ail gyfarfod tymor newydd y Fforwm gan is-adrannau eraill y mae rheoli mynediad yn rhan o'u cylch gorchwyl. | |
| **Eitem 3 – DIWEDDARIAD AR STRATEGAETHAU/ADRODDIADAU SYDD AR Y GWEILL**<br><br>Dywedodd CF y byddai penderfyniad ynghylch cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Fforwm ac Adolygiad Canol Tymor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei wneud ar 22 Mai 2025.<br><br>Dywedodd CF hefyd fod y Strategaeth Marchogaeth wedi'i chymeradwyo yn y Tîm Rheoli Corfforaethol a bydd yn cael ei hystyried yn Rhag-gyfarfod y Cabinet (cam cymeradwyo nesaf y Cyngor) ym mis Mehefin 2025.<br><br>Gofynnodd yr aelodau newydd am gael gweld y Strategaeth. Bydd CF yn dosbarthu copi<br><br>Awgrymodd JG, lle mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datblygu llwybrau beicio dros dir | **CF** |

| | |
|---|---|
| gyda thystiolaeth o ddefnydd marchogol, y gellid arbed arian drwy eu cofnodi drwy broses Gorchymyn Addasu fel Llwybrau Ceffylau yn hytrach na defnyddio gorchymyn Prynu Gorfodol i greu Traciau Beicio.<br><br>Awgrym i gael ei nodi. | **CF** |
| **<u>Eitem 4 – CYFLWYNIAD I ADRODDIADAU PERFFORMIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS</u>**<br><br>Esboniodd CF i'r grŵp sut y daeth adroddiadau perfformiad i'r Fforwm Mynediad Lleol a'r newidiadau diweddar sydd wedi'u gwneud i'r adroddiadau.<br><br>Hefyd, dywedodd CF wrth y grŵp fod RL wedi ymgymryd â'r rôl o ddadansoddi'r adroddiadau blaenorol a chyflwyno canfyddiadau i'r grŵp ac mae'n gobeithio y bydd yn parhau yn y rôl honno am y tymor i ddod.<br><br>Nododd KB nad yw'r adroddiadau perfformiad yn darparu gwybodaeth am statws llwybr a allai fod yn ddefnyddiol pan fydd y gwaith o gyflwyno'r strategaeth farchogaeth wedi dechrau.<br><br>Dywedodd CF y gellir creu adroddiadau ar wahân at ddibenion asesu llwyddiant y strategaeth<br><br>Awgrymwyd hefyd y gellid cynnwys ystadegau gwirfoddolwyr.<br><br>Dywedodd AM fod templed adroddiad eisoes ar gael ar gyfer y prosiect gwirfoddol y gellir ei ddwyn i'r fforwm bob chwarter.<br><br>Cytunodd y grŵp y byddai hyn yn ddefnyddiol iawn | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>AM |
| **<u>Eitem 5 – STORM DARRAGH, EFFAITH AR FYNEDIAD</u>**<br><br>Dywedodd MH fod difrod y storm yn dal yn effeithio ar fynediad ar draws Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, a reolir gan CNC.<br><br>Mynychodd MH, fel cynrychiolydd y Fforwm, gyfarfod gyda CNC ac Adam Price (AS) i drafod effaith difrod y storm a'r amser y mae'n ei gymryd i CNC glirio llwybrau mynediad i bobl leol a thwristiaid.<br><br>Yn ôl sylwadau, nid oes digon o flaenoriaeth wedi cael ei rhoi i'r gwaith o glirio llwybrau mynediad ac mae systemau i roi gwybod i bobl leol a busnesau wedi bod yn wael. Hefyd, goblygiadau i fynediad gan y Gwasanaethau Brys i goetiroedd os bydd damwain.<br><br>Dywedodd PS fod grwpiau gwirfoddol wedi cynorthwyo i glirio rhai llwybrau.<br><br>Dywedodd MH fod y coetiroedd yn dawel iawn am yr adeg o'r flwyddyn gan fod llawer o lwybrau yn dal ar gau.<br><br>Tynnodd CNC sylw at y gost o glirio coed a chwythwyd i lawr gan y gwynt. Barn Adam Price oedd bod angen dod o hyd i ddatrysiad i'r gyllideb. | |

| | |
|---|---|
| Yn ystod trafodaeth gyffredinol y fforwm, tynnwyd sylw at anfodlonrwydd ynghylch rhesymeg CNC dros beidio â chlirio'r coetir dan sylw. Awgrymwyd y dylid cyhoeddi Nodyn Cyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol i dynnu sylw at bryderon ac awgrymu ffordd ymlaen.<br><br>Bydd MH yn drafftio nodyn, a bydd CF yn dosbarthu'r nodyn i'r aelodau, gweithredu unrhyw newidiadau a'i anfon at gynrychiolwyr CNC a Chyngor Sir Caerfyrddin ac Adam Price. | MH/CF |
| **Eitem 6 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**<br>(na roddwyd ar yr agenda fel arall)<br><br>Roedd Llwybr Dyffryn Tywi bellach wedi'i lansio o Felin-wen i Nantgaredig, ac roedd llawer o bobl eisoes yn defnyddio'r llwybr.<br><br>Dywedodd PS nad oedd gofynion mannau eistedd cyhoeddus wedi'u gweithredu. Cynigiwyd cysylltu â swyddog prosiect ar ran y Fforwm Mynediad Lleol.<br><br>Cytunodd yr aelodau.<br><br>Mae Ffordd Osgoi SWTRA yn Robeston Wathen yn cynnig cyfle i greu cysylltiadau Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sydd ar goll yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin, ac mae cynllun ffyrdd ac adeiladu yn rhoi potensial ar gyfer mynediad aml-ddefnyddiwr.<br><br>Mae arwyddion mynd heibio'n ddiogel (beicwyr) wedi'u tynnu oddi ar y rhwydwaith ffyrdd. Ble maen nhw wedi mynd?  Dylid eu hail osod gan eu bod yn offer diogelwch gwerthfawr.<br><br>Bydd CN yn ymchwilio i hyn gyda'r tîm Rheoli Traffig<br><br>Byddai rhywfaint o gyllid ychwanegol yn helpu pobl anabl i gael mynediad ar hyd palmentydd<br><br>Dywedodd CN fod arian cyfalaf ychwanegol wedi'i neilltuo eleni i balmentydd (i droedffyrdd). Roedd arolwg diweddar, ynghylch rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys palmentydd, yn darparu data defnyddiol. | PS<br><br>CN |
| **Eitem 7 – Y CYFARFOD NESAF**<br><br>Nid oedd 4pm yn gyfleus i rai ond roedd yn amser gwell i sicrhau ymgysylltiad mewn cyfarfodydd â sefydliadau mynediad.<br><br>CF i gynnal pôl i weld pwy sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf | CF |

| | |
|---|---|
| **Eitem 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL**<br><br>Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod nesaf. Gwahoddir aelodau i enwebu eu hunain os oes ganddyn nhw ddiddordeb.<br><br>Dyddiad cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd i'w drefnu os yw'r fforwm newydd yn dymuno ei weld yn parhau fel is-grŵp LAF.<br><br>Cytunodd yr Aelodau<br><br>CF i drefnu dyddiad cyfarfod ddiwedd Mai-dechrau Mehefin<br><br>Bydd Ceisiadau Cynllunio ac ymgynghoriadau PPO yn ailddechrau gyda'r Fforwm Mynediad Lleol gan fod y fforwm newydd wedi'i benodi erbyn hyn. | Pob un<br><br>CF |